14 Medi 2021

Brechlyn COVID-19

Brechu pobl ifanc 12 – 15 oed

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pam mae pobl ifanc 12-15 oed yn cael cynnig brechlyn COVID-19?

Bydd GIG Cymru yn dechrau cynnig brechlyn Covid-19 i bob plentyn a pherson ifanc rhwng 12 a 15 oed.

Argymhellwyd hyn gan Brif Swyddogion Meddygol y DU ar ôl ailedrych ar y dystiolaeth ynghylch manteision ymestyn y rhaglen frechu i rai iau o ran iechyd cyhoeddus. Ystyriwyd iechyd meddwl, y rhagolygon hirdymor i bobl ifanc a'r effaith ar addysg.

Dywedodd y Prif Swyddogion Meddygol mai addysg oedd un o'r elfennau pwysicaf o ran gwella iechyd cyhoeddus ac iechyd meddwl. Roedd y dystiolaeth gan weithwyr ym maes iechyd cyhoeddus clinigol yn glir ynghylch yr effaith a gafodd colli gwersi a'r amharu ar addysg wyneb yn wyneb ar les ac iechyd meddwl llawer o blant a phobl ifanc.

Adroddodd y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) fod manteision brechu fymryn lleiaf yn fwy na'r niwed posibl i'r grŵp oedran hwn, ond na ellid ei argymell ar sail iechyd yn unig.

Awgrymodd y JCVI y gallai'r llywodraeth fod am ofyn am farn bellach ar faterion a oedd y tu allan i'w cylch gwaith nhw - effeithiau cymdeithasol ac addysgol ehangach - gan Brif Swyddogion Meddygol y pedair gwlad.

Ystyriodd Prif Swyddogion Meddygol y DU amrywiaeth o dystiolaeth ynghylch manteision ehangach brechu cyffredinol yn y grŵp oedran hwn, o ran iechyd cyhoeddus, yn ogystal â'r risgiau, cyn argymell y dylai'r rhaglen frechu gael ei rhoi ar waith.

Ym mis Awst 2021, estynnwyd y rhaglen frechu i gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed. Mae pawb yn y grŵp oedran hwn yng Nghymru wedi cael gwahoddiad i gael eu brechu.

Pam roedd y cyngor ynghylch pobl ifanc 12-15 oed yn wahanol i'r cyngor ynghylch pobl ifanc 16-17 oed?

Mae pobl ifanc 16 ac 17 oed yn symud tuag at fod yn oedolion, addysg uwch a/neu'r gweithle. Mae eu hymddygiad cymdeithasol a'u patrymau cymysgu cymdeithasol yn wahanol i'r hyn sy'n wir am bobl ifanc 12 i 15 oed, a thrwy gydol y pandemig mae'r cyfraddau heintio wedi bod yn gyson uwch ymhlith pobl ifanc 16 i 17 oed o gymharu â rhai iau. Gall pobl ifanc 16 ac 17 oed hefyd roi eu cydsyniad eu hunain ar sail gwybodaeth i gael eu brechu.

Beth mae angen i bobl ifanc 12-15 oed ei wneud?

Byddant yn derbyn gwybodaeth gan eu bwrdd iechyd ynghylch pryd a ble y gallant gael eu brechu. Bydd sut y cânt y brechlyn yn amrywio, yn dibynnu ar ble maent yn

byw yng Nghymru, ond bydd naill ai mewn canolfan frechu neu ar safle ysgol. Peidiwch â ffonio'ch meddyg teulu i ofyn am apwyntiad.

Mae'n bwysig bod rhieni a gwarcheidwaid yn siarad am y rhaglen frechu gyda phobl ifanc i gael gwybod a ydynt am fanteisio ar y cynnig. Dylent egluro pam mae'r brechiad yn cael ei gynnig yn ogystal â'r risgiau. Defnyddiwch ffynonellau gwybodaeth dibynadwy, fel y GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel sail i'ch penderfyniadau.

Bydd gwybodaeth i blant a phobl ifanc ar gael gan Iechyd Cyhoeddus Cymru maes o law.

Mae Byrddau Iechyd yng Nghymru wedi bod yn cynllunio ar gyfer brechu'r grŵp oedran hwn ers mis Mai, er mwyn bod yn barod pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud.

Y bwriad yw cynnig apwyntiad i bob person ifanc 12-15 oed a brechu pawb sy'n dewis dod ymlaen erbyn hanner tymor mis Hydref.

Bydd y rhaglen yn defnyddio brechwyr sydd â phrofiad o frechu plant a phobl ifanc. Os oes ofn nodwyddau ar y person sy'n cael ei frechu neu os yw'n teimlo'n bryderus, gall roi gwybod i'r person sy'n rhoi'r brechlyn. Bydd hwnnw'n deall ac yn gefnogol.

Ni ddylech fynd i'ch apwyntiad brechlyn os oes gennych symptomau COVID neu:

- os ydych yn hunanynysu,
- os ydych yn aros am ganlyniad prawf COVID-19 neu
- os oes llai na 4 wythnos wedi mynd heibio ers ichi gael prawf COVID-19 positif.

Os yw unrhyw un o'r uchod yn wir, dylech ganslo'r apwyntiad ac aros i gael y brechlyn ryw dro eto.

A fydd y brechlyn yn amddiffyn pobl iau?

Bydd y brechlyn yn lleihau'r tebygolrwydd y byddwch yn dioddef yn sgil COVID-19. Gall gymryd ychydig wythnosau i'ch corff greu amddiffyniad ar ôl cael y brechlyn.

Nid yw unrhyw frechlyn yn gwbl effeithiol. Efallai y bydd rhai pobl yn dal i gael COVID-19 er gwaethaf cael y brechlyn, ond dylai fod yn llai difrifol.

Y brechlyn a roddir i blant a phobl ifanc yw brechlyn Pfizer.

Mae profion wedi dangos bod y brechlyn yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae brechlyn Pfizer wedi'i gymeradwyo ar gyfer pobl ifanc 12 oed ac i fyny gan reoleiddiwr meddyginiaethau annibynnol y DU.

Nid yw'r brechlyn wedi'i gymeradwyo ar gyfer plant dan 12 oed ac nid yw hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Ydw i mewn perygl o haint COVID-19?

Mae COVID-19 yn glefyd heintus sy'n effeithio ar eich anadlu. O'r plant a'r bobl ifanc sy'n dal haint COVID, ychydig iawn sy'n mynd ymlaen i gael afiechyd difrifol, ond gall y salwch barhau am fisoedd ar ôl ei ddal. Gelwir hyn yn Covid Hir.

Gall y coronafeirws effeithio ar unrhyw un. Mae rhai plant a phobl ifanc mewn mwy o berygl. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd eisoes yn byw gyda chyflyrau iechyd difrifol.

Argymhellodd y JCVI hefyd y dylid ychwanegu rhai plant a phobl ifanc sydd â systemau imiwnedd gwan at y rhaglen frechu, a hynny am eu bod mewn mwy o berygl o salwch difrifol yn sgil COVID.

I'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc, mae COVID yn salwch ysgafn. Efallai y bydd y symptomau yn para am 2 i 3 wythnos ar y mwyaf.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y symptomau, ewch i: GIG 111 Cymru

A oes sgil-effeithiau neu risgiau posibl?

Ar ôl cael y brechlyn:

- Efallai y bydd eich braich yn teimlo'n drwm neu'n boenus.
- Efallai y bydd eich corff yn gwynegu.
- Efallai y byddwch yn teimlo fel pe bai annwyd neu'r ffliw arnoch.
- Efallai y bydd gennych gur pen.
- Efallai y byddwch yn teimlo'n flinedig.
- Efallai y byddwch yn teimlo'n boeth iawn neu'n oer iawn.

Os byddwch chi'n teimlo'n sâl, gallwch orffwys a chymryd poenladdwyr fel parasetamol. Dylech deimlo'n well ymhen ychydig ddyddiau.

Gallai nifer fach iawn o bobl gael:

- problemau gyda'u calon (myocarditis) – gall eich calon deimlo fel pe bai'n curo mewn ffordd wahanol i'r arfer
- poen yn eu brest (pericarditis)
- problemau anadlu

Os byddwch chi'n teimlo'n sâl ac yn ansicr pa help sydd ei angen arnoch, gallwch gysylltu â GIG 111.

Fe fyddan nhw'n gallu dweud wrthych beth i'w wneud. Os yw'n argyfwng, byddant yn gallu anfon ambiwlans.

Os bydd rhywun yn teimlo'n sâl ar ôl eu brechiad, gallwch gofnodi'r peth ar wefan y cerdyn melyn. Mae hyn yn help inni ddarganfod sut mae gwahanol bobl yn teimlo ar ôl y brechlyn ac yn sicrhau bod y brechlyn yn cadw pobl yn ddiogel.

Sawl dos a gynigir i bobl ifanc 12-15 oed?

Cynigir dos cyntaf o frechlyn Pfizer i bob person ifanc 12-15 oed yng Nghymru. Mae'r JCVI wedi gweld mwy o ddata am ddiogelwch Pfizer ar gyfer y grŵp oedran hwn, ac felly dyma'r brechlyn a ffefrir.

Gofynnwyd i'r JCVI am gyngor ynghylch cynnig ail ddos pan fydd mwy o ddata rhyngwladol ar gael ar ail ddos yn y grŵp oedran hwn. Ni fydd hyn cyn Gwanwyn 2022.

Sawl dos y bydd y grwpiau sydd mewn perygl yn eu cael?

Cynigir cwrs cyntaf o ddau ddos i'r rheini sy'n 12 oed ac yn hŷn ac sy'n perthyn i grŵp 'mewn perygl' oni bai eu bod yn ddifrifol imiwnoataliedig, ac os felly cynghorir rhoi cwrs tri dos (canllawiau'r JCVI).

A fydd athrawon yn cael cynnig pigiad atgyfnerthu ar yr un pryd â phlant a phobl ifanc?

Na fyddant. Ni flaenoriaethir ar sail proffesiwn. Disgwylir i'r rhaglen atgyfnerthu ddechrau gyda grwpiau blaenoriaeth 1-9 fel y'u diffinnir gan y JCVI (fel a wnaed y tro cyntaf), a chynigir pigiad atgyfnerthu i bobl chwe mis ar ôl eu hail ddos. Efallai y bydd rhai athrawon yn perthyn i'r grwpiau hyn oherwydd cyflyrau iechyd, neu oedran.

A fydd athrawon nad ydynt eto wedi manteisio ar eu cynnig i gael brechiad (dos cyntaf neu ail ddos) yn gallu cael eu brechu mewn ysgolion?

Na fyddant. Mae 93% o holl staff ysgolion eisoes wedi'u brechu ddwywaith. Mae canolfannau galw i mewn ledled Cymru, lle nad oes angen apwyntiad, i unrhyw un nad yw wedi cael ei frechlyn cyntaf neu ei ail frechlyn eto (cyn belled â bod bwlch o 8 wythnos rhyngddynt).

A all pobl ifanc dan 16 oed gydsynio i gael eu brechu?

I'r rheini sydd dan 16 oed, gofynnir am gydsyniad i'w brechu gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant drostynt. Dim ond cydsyniad un person sydd â chyfrifoldeb rhiant sydd ei angen ar yr amod nad oes unrhyw anghydfod ynghylch y brechu gyda rhiant arall sy'n gyfrifol am y plentyn hwnnw, neu berson arall sydd "in loco parentis", ac os felly gallai fod angen penderfyniad gan y llysoedd.

Ar gyfer canolfannau brechu, bydd y rhiant neu'r gofalwr yn rhoi ei gydsyniad pan fydd yn cyrraedd gyda'r plentyn/person ifanc.

Mewn safle ysgol uwchradd, mae'n arfer cyffredin i ffurflenni cydsyniad a gwybodaeth (neu ddolenni at wybodaeth) gael eu hanfon at rieni neu warcheidwaid y plentyn cyn y sesiwn imiwneiddio. Gall y ffurflenni cydsyniad fod yn rhai papur neu electronig, a chânt eu hanfon drwy e-bost. Gofynnir am gydsyniad ysgrifenedig gan rieni neu warcheidwaid ymlaen llaw gan na fyddan nhw'n bresennol fel rheol adeg y brechiad.

Beth yw cymhwysedd Gillick?

Ni ragdybir yn awtomatig bod pobl ifanc dan 16 oed yn gymwys yn gyfreithiol i wneud penderfyniadau am eu gofal iechyd, gan gynnwys p'un a ddylid rhoi brechlyn COVID-19 iddynt. Fodd bynnag, mae'r llysoedd wedi datgan y bydd pobl ifanc dan 16 oed yn gymwys i roi cydsyniad dilys i ymyriad penodol os oes ganddynt ddealltwriaeth a deallusrwydd digonol i wybod yn iawn beth a gynigir.

Mae prawf Gillick yn darparu, os oes gan blentyn o dan 16 oed ddealltwriaeth a deallusrwydd digonol i wybod beth sy'n cael ei gynnig, y gellir darparu gofal a thriniaeth heb gydsyniad rhieni.

Os nad yw plentyn yn gymwys i roi cydsyniad drosto'i hun, dylid gofyn am gydsyniad person sydd â chyfrifoldeb rhiant.

A all ysgolion helpu i sicrhau cydsyniad rhiant neu blentyn?

Er y gall ysgolion gynnal gwasanaethau imiwneiddio a helpu i ddosbarthu gwybodaeth, nid ydynt yn gyfrifol am sicrhau cydsyniad rhiant neu blentyn, asesu cymhwysedd Gillick na chyfryngu rhwng rhieni a phlant sydd efallai yn anghytuno ynghylch a ddylid cydsynio ai peidio. Rôl nyrsys yr ysgol yw hyn, sydd â'r arbenigedd a'r profiad i ymdrin â materion o'r fath. Mae nyrsys cofrestredig yn atebol yn broffesiynol.

Yng Nghymru, cynigir y brechlyn drwy ganolfannau brechu yn bennaf, felly rôl fach iawn fydd gan y rhan fwyaf o ysgolion, hy rhannu gwybodaeth ffeithiol a ddarperir gan y bwrdd iechyd.

A ystyriwyd hawliau plant yn y cyngor a roddwyd gan y Prif Swyddogion Meddygol?

Do, roedd hawliau plant yn ganolog i'r penderfyniadau. Ystyriodd y Prif Swyddogion Meddygol gwestiwn lles cyffredinol, yn unol ag egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r rhain i gyd yn ddyletswyddau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddynt sy'n ehangach na chanlyniadau meddygol yn unig. Roedd yr ystyriaethau hyn y tu hwnt i gylch gwaith y JCVI - sydd wedi rhoi cyngor gwerthfawr iawn – ac roeddent yn rhan o'r broses o lywio penderfyniadau'r Gweinidogion.